



Ysgol Talysarn

Talysarn
Caernarfon
Gwynedd
LL54 6HR

Ffon: 01286 880885

E.Bost - GlendaEvans@gwynedd.llyw.cymru

Pennaeth/Headteacher: Mrs. Glenda Evans B.A. (Anrhydedd)

16.07.2020

Annwyl riant /warcheidwad,

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i chi am eich cefnogaeth dros y misoedd diwethaf. Mae wedi bod yn gyfnod gwahanol a heriol iawn, a rydym wedi llwyddo i gyrraedd diwedd y flwyddyn ysgol a goresgyn sawl anhawster wrth wneud hynny. Eich cefnogaeth chi, y plant a'r staff sydd i gyfri am hynny.

Ffarwelio Hoffwn estyn dymuniadau gorau i griw Blwyddyn 6 sydd yn trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd ym mis Medi. Diwedd cyfnod iddyn nhw (ac i rai ohonoch chi fel rhieni!) Rwy'n mawr obeithio mai dim ond atgofion positif fydd yn dod i'r cof wrth gofio am Ysgol Talysarn ac y bydd yna edrych yn ôl gyda gwên. Os bydd yna galonnau trwm a hiraeth yn hel wrth 'madael â'r Cynradd, dwi'n siŵr y bydd yna cryn gyffro ac edrych ymlaen hefyd wrth gychwyn yr ysgol Uwchradd.

Dosbarth Meithrin Fel mae un criw yn gadael, mae criw newydd yn cychwyn. Yn wahanol i'r drefn arferol nid oedd yn bosibl cynnal diwrnod ymgartrefu i'r dosbarth Meithrin eleni. Ond gallaf eich sicrhau ein bod yn edrych ymlaen yn fawr iawn i groesawu'r disgyblion i'r dosbarth Meithrin ym mis Medi a hynny ar **ddydd Llun, Medi 14eg**.

Trefniadau ar gyfer Derbyn a Blynyddoedd 1-6 Dwi'n siŵr eich bod wedi clywed cyhoeddiad y Gweinidog Addysg y bydd ysgolion yn ail agor yn raddol ym mis Medi. Er mwyn rhoi digon o amser i bawb paratoi, rydym fel dalgylch wedi trafod opsiynau posibl ac er mwyn sicrhau cysondeb dalgylchol rydym wedi penderfynu dilyn y drefn ganlynol. Bydd y dyddiau hyn yn dilyn trefn arferol dyddiau ysgol a byddwn yn ceisio cael gymaint o 'normalrwydd' â phosibl. Bydd disgwyl i ddisgyblion wisgo gwisg ysgol yn unol â threfniant arferol yr ysgol ond yn deall hefyd os nad yw hynny'n bosibl ar y dechrau'r tymor.

| Llun 31/8/20 | Mawrth 1/9/20 | Mercher 2/9/20 | Iau 3/9/20 | Gwener 4/9/20 |
|--|--|--|---|---|
| GWYL BANC | DIWRNOD PARATOI | DIWRNOD PARATOI | Dosbarth Derbyn Blwyddyn 6 | Dosbarth Derbyn Blwyddyn 6 |
| Llun 7/9/20 | Mawrth 8/9/20 | Mercher 9/9/20 | Iau 10/9/20 | Gwener 11/9/20 |
| Dosbarth Derbyn Blwyddyn 2 Blwyddyn 4 Blwyddyn 6 | Dosbarth Derbyn Blwyddyn 2 Blwyddyn 4 Blwyddyn 6 | Dosbarth Derbyn Blwyddyn 1 Blwyddyn 2 Blwyddyn 4 Blwyddyn 6 | Dosbarth derbyn Blwyddyn 1 Blwyddyn 2 Blwyddyn 3 Blwyddyn 4 Blwyddyn 6 | Dosbarth Derbyn Blwyddyn 1 Blwyddyn 2 Blwyddyn 3 Blwyddyn 4 Blwyddyn 5 Blwyddyn 6 |

Cinio Ysgol a Chlwb Brecwast

Bydd cinio Ysgol yn cael ei ddarparu o fis Medi ymlaen, ond dylwn ychwanegu ein bod yn disgwyl mwy o ganllawiau ynglŷn â chlybiau brecwast a gofal.

Rydym yn edrych ymlaen i groesawu'r disgyblion yn ôl ar y dyddiadau uchod a'r dosbarth Meithrin ar ddydd Llun 14eg o Fedi.

Byddwn yn anfon negeseuon a chanllawiau pellach dros yr Haf, fydd gobeithio, yn ateb unrhyw gwestiynau allai godi gennych chi.

Diolch am eich cefnogaeth unwaith eto. Dymuniadau gorau am haf hapus i chi gyd.